

# Nodiadau Athrawon

## Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda



### PWNC

Propaganda

Ieuenctid Natsïaidd

### GRŴP OEDRAN

Blynyddoedd 7-11 (12-16 oed)

Camau Cynnydd 4 a 5

### HYD

1 awr

### MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a  
Chyfathrebu

### DISGRIFIAD

Yn y gweithgaredd hon, bydd myfyrwyr yn dysgu sut y defnyddiodd y Natsïaidd sefydliadau ieuenctid a phropaganda i feithrin cefnogaeth miliynau o Almaenwyr i'w nodau gwleidyddol ac i lunio barn ac ymddygiad y cyhoedd cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Nod y gweithgaredd yw darparu sylfaen i archwilio sut y gall rhagfarn a phropaganda gyfrannu at erledigaeth, trais, erchyllter torfol, a hil-laddiad.

Mae'r gweithgaredd yn cynnwys tystiolaethau fideo gan Irene Kirstein Watts ac Ellen Kerry Davis, ffoaduriaid Kindertransport. Mae'r dystiolaeth hon yn caniatáu i fyfyrwyr fyfyrto ar sut y defnyddiodd y Natsïaidd haenau lluosog o bropaganda a sut y dylanwadodd ar y rhai a oedd yn cael eu cynnwys yn y gymdeithas Almaenig, a'r rhai oedd wedi'u heithrio o'r gymdeithas honno ar y pryd. Mae'r gweithgaredd yn annog myfyrwyr i ystyried yr effaith ddynol a gafodd y propaganda hwn ar deuluoedd unigol, gan bwysleisio dynoldeb dioddefwyr yr Holocaust.

Mae'r gweithgaredd hefyd yn archwilio sut mae propaganda cyfoes yn parhau i effeithio ar bobl heddiw. Gofynnir i fyfyrwyr gysylltu'r myfyrdodau hyn â'u rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain mewn cymdeithas ddemocrataidd ac i fyfyrto ar rôl y cyfryngau yn eu bywydau eu hunain, gan ganolbwyntio ar sut i ddatblygu lens feiriadol wrth ddehongli negeseuon cyfryngau modern.

Gellir rhannu'r gweithgaredd yn hawdd yn ddwy sesiwn lle bo angen – gellir gwneud Tasgau 1-3 yn y sesiwn gyntaf a gellir cwblhau Tasgau 4 a 5 mewn ail sesiwn.\*

### NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

- Myfyrto ar y cysyniad o bropaganda.

\*Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.

# Nodiadau Athrawon

## Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

### NODAU DYSGU (parhad)

- Deall sut y gellir llunio a lledaenu negeseuon propaganda a'r ffactorau a all ddylanwadu ar eu llwyddiant.
- Dysgu bod propaganda a thrwytho ieuentid wedi chwarae rhan annatod wrth hyrwyddo syniad y Blaid Natsïaidd o 'gymuned genedlaethol' yr Almaen ac wedi creu hinsawdd o ddifrawder (neu hyd yn oed gefnogaeth) wrth i Iddewon brofi erledigaeth ac yn y pen draw hil-laddiad.
- Dysgu sut yr oedd propaganda Natsïaidd yn cydblethu â chyd-destun gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y cyfnod i fod yn effeithiol.
- Myfyrio ar yr effaith ddynol a gafodd yr erledigaeth hon ar y gymuned Iddewig.
- Archwilio cyfrifoldeb yr unigolyn i asesu'n feirniadol negeseuon y cyfryngau cyfoes a herio propaganda peryglus heddiw.
- Dysgu am y cysylltiad â Chymru trwy dystiolaeth fideo ffoaduriaid Kindertransport.

### OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, taflunydd, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

## Ystyriwch

Dywedwch wrth y myfyrwr eu bod am ystyried a thrafod y syniad o 'bropaganda'.

Mae Geiriadur Saesneg Collins yn diffinio propaganda fel: “*gwybodaeth, yn aml gwybodaeth anghywir, y mae sefydliad gwleidyddol yn ei chyhoeddi neu'n ei darlledu er mwyn dylanwadu ar bobl*”.<sup>1</sup>

Ar y bwrdd, lluniwch fap meddwl a gofynnwch i'r dosbarth am eiriau sy'n dod i'w meddwl yn awtomatig wrth feddwl am bropaganda. Yn hytrach na'r mathau o bropaganda – anogwch y myfyrwr i feddwl am y cysyniad cyffredinol. Efallai y byddwch am ofyn cwestiynau fel:

- Beth yw nod cyffredinol propaganda (hynny yw, dylanwadu ar farn ac ymddygiad)?

<sup>1</sup> Collins, *Definition of 'propaganda'* <<https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/propaganda>> [cyrchwyd 11 Ebrill 2022].

# Nodiadau Athrawon

## Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

### Ystyriwch (parhad)

- Beth yw nodweddion allweddol propaganda (ee, hyrwyddo achos arbennig i gynulleidfa benodol, defnyddio hanner gwirioneddau a chelwydd, chwarae ar emosiynau ac ofnau, ymosod ar wrthwynebwyr)?
- Sut mae propaganda yn cael ei ledaenu (ee, trwy bapurau newydd, cyfryngau cymdeithasol, ffilm)?

Nawr, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen diffiniad y geiriadur o bropaganda a ddarperir ar y daflen waith y myfyrwyr.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu pa effaith maen nhw'n meddwl y gallai propaganda ei chael ar gymdeithas a/neu fywydau bob dydd os na wneir rhywbeth yn ei gylch (**Tasg 1**).

### Casglu

Eglurwch i'r myfyrwyr y bydd y gweithgaredd yn canolbwyntio ar rai mathau o offer propaganda a ddefnyddiwyd gan y Natsïaid cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd – yn benodol y rhai sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc.

Gan weithio mewn paru, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen **Taflen 1**. Mae'r daflen hon yn nodi rhai termau allweddol a digwyddiadau hanesyddol sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer dadansoddi'r propaganda hwn. Dylai un myfyriwr ddarllen tudalen gyntaf y Daflen a dylai'r myfyriwr arall ddarllen yr ail dudalen. Dylai'r myfyrwyr wedyn rannu gyda gweddill y dosbarth yr hyn y maent wedi'i ddysgu.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/paru, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiwn cyntaf ar daflen waith y myfyrwyr (**Tasg 2**).

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen **Taflen 2**.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/paru, gofynnwch i'r myfyrwyr ddadansoddi'r ddelwedd ar Daflen 2 ac ateb y cwestiynau ar daflen waith y myfyrwyr (**Tasg 2**).

Eglurwch i'r myfyrwyr y byddan nhw'n clywed gan Irene Kirstein Watts ac Ellen Kerry Davis, plant a oedd yn ffoaduriaid, a ddaeth i Gymru yn ystod y 1930au i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen bywgraffiadau Irene ac Ellen (a ddarperir ar daflen waith y myfyrwyr) a gwyllo dau fideo byr, lle mae Irene ac Ellen yn disgrifio gwahanol brofiadau o'u plentyndod yn yr Almaen yn y 1930au.

Gan weithio mewn grwpiau/paru, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar daflen waith y myfyrwyr (**Tasg 3**).

# Nodiadau Athrawon

## Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

### Casglu (parhad)

Anogwch y myfyrwyr i ystyried materion fel:

- Ceisiodd propaganda'r Natsïaid a grwpiau ieuentid siapio pob agwedd ar feddyliau pobl ifanc, yn enwedig eu canfyddiad o'r hunan a'r llall, yr Almaenwr a'r Iddew.
- Mae'n bosibl bod meddyliau ifanc wedi bod yn arbennig o agored i'r tactegau a ddefnyddiwyd gan y Natsïaid. Er enghraifft, cynlluniwyd y mudiadau Ieuentid Natsïaidd yn benodol i bwysleisio'r profiad grŵp i orfodi ysbryd o gymuned, hyrwyddo brawdgarwch, a rhoi'r argraff i bobl ifanc o rôl arloesol wrth greu Almaen newydd, wedi'i hadnewyddu.
- Yn y bôn, fodd bynnag, nod mudiadau Ieuentid Hitler oedd nid annog meddwl annibynnol ond yn hytrach gwthio ideoleg Natsïaidd ar fyfyrwyr. Nod cyfarwyddyd ystafelloedd dosbarth a Ieuentid Hitler oedd cynhyrchu pobl ifanc ufudd, difeddwl, a fyddai'n cefnogi nodau'r Natsïaid.
- Roedd ymgyrchoedd propaganda'r Natsïaid yn ysgogi casineb a thrais yn erbyn Iddewon neu'n meithrin difaterwch tuag ato.
- Mae'n gyffredin i fyfyrwyr ddod i'r casgliad ar ôl astudio propaganda bod y Natsïaid wedi llwyddo i gyflyru poblogaeth yr Almaen, ond mae'n bwysig eu helpu i feddwl yn ofalus am y syniad hwn. Mae effeithiau propaganda yn fwy cymhleth na dim ond cyflyru. Adeiladodd y Natsïaid ar ganrifoedd o ragfarn gwrth-Iddewig ac roedd llawer o Almaenwyr yn rhannu'r credoau a drosglwyddwyd trwy bropaganda'r Natsïaid. Mae hefyd yn nodedig o dystiolaeth Ellen iddi gael ei hachub o dorff o ieuentid Natsïaidd gan deulu nad oedd yn Iddewig, a oedd yn gallu gwneud dewisiadau moesol gwahanol ar y pryd ac nad oeddent wedi cael eu cyflyru.

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y testun ar ddechrau **Tasg 4** ar daflen waith y myfyrwyr. Mae hyn yn ymwneud ag Adroddiad Digwyddiadau Gwrthsemitaidd 2021 yr Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol.<sup>2</sup>

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar daflen waith y myfyrwyr (**Tasg 4**).

### Llunio

**Tasg 5:** Gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau a nodir ar y daflen waith ac yna i ysgrifennu maniffesto pum pwynt ar gyfer disgyblion oed ysgol uwchradd sydd wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth o rôl a dylanwad y cyfryngau ar y grŵp oedran hwn. Dylai'r maniffesto esbonio sut i werthuso negeseuon ar y cyfryngau a herio rhagfarn a phropaganda.

<sup>2</sup> Community Security Trust, *Antisemitic Incidents Report 2021* (2021) <<https://cst.org.uk/data/file/f/f/Incidents%20Report%202021.1644318940.pdf>> [cyrchwyd 10 Ebrill 2022 ].

# Nodiadau Athrawon

## Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

### Llunio (parhad)

Anogwch y myfyrwyr i ddefnyddio eu barn annibynnol wrth edrych ar negeseuon ar y cyfryngau trwy ofyn cwestiynau fel:

- Pwy sy'n hyrwyddo'r syniad, pwy yw'r gynulleidfa arfaethedig ac a oes gofyn i mi gymryd cam penodol neu beidio?
- Ai neges sy'n adrodd ffeithiau yw hon, yn seiliedig ar dystiolaeth?
- A yw'r dystiolaeth honno ar gael i'w gwirio?
- A oes unrhyw ffeithiau ar goll?
- A gafodd unrhyw ffeithiau eu camddehongli neu eu hystumio?
- A yw'r neges yn seiliedig ar farn (hynny yw, dyfarniad neu gasgliad rhesymol yn seiliedig ar dystiolaeth ffeithiol)?
- A allaf ganfod unrhyw duedd yn y neges?
- A yw'r neges yn seiliedig ar gred yn unig (ee, argyhoeddiad nad yw'n cyfeirio at dystiolaeth ffeithiol)?
- Ydw i wedi gwerthuso amrywiaeth o safbwyntiau ar y pwnc?
- Ydw i wedi herio unrhyw ragfarn neu dueddfryd sydd gennyf eisoes ar y pwnc?
- A oes unrhyw gyd-destun cefndirol (ee, gwleidyddol, cymdeithasol, neu economaidd) y dylwn ei ystyried fel rhan o fy asesiad o'r neges?
- Ydy'r neges yn targedu grŵp bregus neu leiafrifol mewn ffordd eithafol neu beryglus?

### Cyfaterbu

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen maniffesto a ysgrifennwyd gan fyfyrwr arall. Yna gofynnwch iddyn nhw drafod y syniadau maen nhw wedi'u darllen ac a yw'r rhain yr un fath neu'n wahanol i'r rhai yn eu maniffesto eu hunain.

### Atodiadau

1. Taflen 1: Cefndir i Bropaganda'r Natsïaid.
2. Taflen 2: NGrwpiau Ieuencid Natsïaidd.
3. Taflen 3: Trawsgrifiadau Fideo.
4. Taflen 4: Taflen Waith Myfyrwyr.



# Nodiadau Athrawon

## Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

### Rhestr o Weithgareddau

- Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
- Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith.
- Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
- Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
- Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
- Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
- Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
- Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
- Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
- Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

### Delwedd Clawr

Ffotograff o Ellen Kerry Davis a'i theulu y tu allan i'w cartref yn Kassel, yr Almaen tua 1937. Ym 1939, dihangodd Ellen rhag erledigaeth y Natsïaid trwy'r Kindertransport. Cafodd ei mabwysiadu gan gwpl oedrannus, di-blant yn Abertawe. Delwedd o gyfweiliad Ellen Kerry Davis o archif Sefydliad USC Shoah – Y Sefydliad Hanes Gweledol ac Addysg, 1996. Am ragor o wybodaeth: <http://sfi.usc.edu/>.

